Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Cynnwr Cyf (Clwb ar ôl Ysgol)**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynnwr**
**Lôn Penymorfa**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/09/2023

# Clwb Cynnwr Cyf (Clwb ar ôl Ysgol)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Cynnwr Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn gwneud ffrindiau cadarn ac yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn rhyngweithio ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant, gan siarad yn dyner â nhw. Mae'r staff yn deall ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda. Maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae, sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Yn gyffredinol, mae'r staff yn dilyn polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel, er bod angen cryfhau hyn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau ac arferion ar waith, ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau. Mae digon o le o dan do ac yn yr ardal awyr agored i'r plant ei ddefnyddio. Mae dodrefn, cyfarpar, a dewis digonol o deganau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r adnoddau yn addas o ran dyluniad, mewn cyflwr da, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Gwnaed sawl argymhelliad a nodwyd maes i'w wella mewn perthynas â gwiriadau addasrwydd.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y clwb a gallant gyfeirio eu chwarae eu hunain, er enghraifft mae rhai o'r plant yn dod â'u llyfrau eu hunain i'w darllen. Maent yn gofyn yn hyderus am gymorth gan y staff gofal pan fo angen. Gwelsom y plant yn gweithio gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r siapau magnetig i greu ôl-gerbyd i gario'r anifeiliaid plastig. Mae ganddynt gydberthnasau agos ag oedolion cyfarwydd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae bron pob plentyn yn hapus i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd neu'n annibynnol.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad, er enghraifft, gwelsom blentyn ifanc yn defnyddio adnoddau chwarae rôl i esgus ei fod yn llifio ac yn atgyweirio'r fainc bren. Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd sawl un o'r plant wrthym eu bod yn mwynhau'r cyfle i chwarae â'u ffrindiau a'u bod yn mwynhau'r bwyd yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad cadarn o berthyn. Maent yn gwneud ffrindiau cadarn ac yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol. Gwelsom bron pob un o'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd yn llwyddiannus, gan rannu, gwenu ac ymgysylltu â'u ffrindiau a'r staff.  Mae'r plant yn cymryd rhan yn hyderus adeg tacluso ac yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd ac yn hapus i rannu teganau a chymryd eu tro. Gwelsom y plant yn chwarae yn hapus ochr yn ochr â'i gilydd â'r cadeiriau gwthio a'r doliau. Roedd eraill yn hapus i aros eu tro. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff gofal, a chlywsom y plant yn rhannu gwybodaeth am eu teuluoedd a'u gwyliau diweddar gyda nhw. Mae'r plant yn hyderus ac yn mwynhau sgwrsio â ni a gofyn am ein rolau.

Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n ysgogol ac yn ddiddorol. Er enghraifft, tynnu llun a lliwio, paentio, adeiladu, chwarae byd bach a chwarae yn yr awyr agored. Gall y plant ddewis pryd yr hoffent ymlacio a gorffwys neu gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn dewis gweithgareddau ac adnoddau o'r amrywiaeth sydd ar gael. Mae'r plant yn cymryd cyfrifoldeb dros eu heiddo eu hunain, fel eu cotiau a'u bagiau. Cânt eu hannog i fynd i'r toiled yn annibynnol ac i helpu i dacluso. Mae'r plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd ac yn rhoi eu poteli llaeth gwag yn y bin.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn dilyn y gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith yn effeithiol er mwyn sicrhau llesiant y plant. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hyfforddiant hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu. Mae gan y lleoliad bolisi amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae angen ei ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth a therminoleg gyfredol. Mae bron pob aelod o'r staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau os bydd datgeliad neu honiad o gam-drin yn dod i law. Mae'r staff yn cyfleu negeseuon diogelwch i'r plant er mwyn osgoi unrhyw ddamweiniau mewn sefyllfaoedd penodol, er enghraifft drwy nodi y dylent gerdded pan fyddant y tu mewn i'r adeilad ac y dylent eistedd yn daclus ar y cadeiriau. Mae'r staff yn glanhau'r holl arwynebau cyn i'r plant eistedd i gael eu byrbryd, gan felly leihau'r risg o groes-heintio. Maent yn darparu byrbryd ysgafn i'r plant ar ddechrau'r sesiwn. Mae'r plant yn rhannu eu hoff bethau a'u cas bethau er mwyn gwneud awgrymiadau ar gyfer y fwydlen ar fap meddwl. Mae'r staff yn cyfrif y plant yn rheolaidd ac mae staff yr ysgol yn eu trosglwyddo i staff y clwb ar ddechrau'r sesiwn.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn effeithiol. Maent yn siarad yn dyner â'r plant, *"Helo twts".* Clywsom y staff yn atgoffa'r plant i wrando'n astud ac yn diolch i'r plant am eu help. Mae'r staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant. Wrth eistedd gyda'i gilydd wrth y bwrdd yn tynnu lluniau ac yn lliwio, dywedodd y staff, *“ma hwn yn edrych yn brilliant. Biwtiffwl!”* Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hanghenion. Mae pob aelod o'r staff yn gyson ymatebol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae, sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Er enghraifft, clywsom y staff yn sgwrsio â'r plant am eu hoff anifeiliaid. Gwelsom y staff yn annog y plant i ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef o blith amrywiaeth o adnoddau. Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd awyr agored yn hyderus, gan fynd allan i'r iard ac i'r ardal laswelltog y gwneir defnydd da ohonynt gan y staff. Mae'r staff yn atgoffa'r plant bod angen iddynt gadw draw oddi wrth y llethr serth wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau yn anffurfiol ac yn dilyn diddordebau a syniadau'r plant sydd wedi'u cofnodi ar fap meddwl a luniwyd ar ddechrau'r tymor. Gall y plant ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r staff a rhai o'r plant yn siarad Cymraeg.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau a arferion priodol ar waith. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Maent yn cynnal gwiriadau gweledol bob dydd, ond ni chaiff y gwiriadau hyn eu cofnodi ar hyn o bryd. Mae asesiadau risg sylfaenol iawn ar waith, ond nid ydynt yn ymdrin â'r holl feysydd a'r holl weithgareddau. Mae system mynediad ddiogel ar waith i'r brif ysgol, a gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan yn nerbynfa'r ysgol ac yn y clwb ar ôl ysgol. Mae gan y lleoliad fynediad ar wahân ar gyfer casglu'r plant. Mae systemau ar waith i sicrhau y ceir llofnod pan fydd y plant yn gadael ar ddiwedd pob sesiwn. Caiff gwiriadau diogelwch eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y cyfarpar tân a'r boeler. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd, ond mae angen datblygu'r cofnodion ar eu cyfer ymhellach. Mae pecyn cymorth cyntaf ar gael a cafodd ei ailgyflenwi yn ystod yr ymweliad arolygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardal chwarae fawr dan do er mwyn i'r plant allu symud o gwmpas yn hwylus. Gall y plant ddefnyddio amrywiaeth o ardaloedd fel bwrdd gwaith, ardal chwarae rôl neu ardaloedd llawr i ddatblygu eu chwarae. Mae'r ardal awyr agored ar ffurf iard fawr, ynghyd ag ardal laswelltog. Mae hyn yn golygu y gellir cynnal gweithgareddau fel pêl-droed mewn ardal ddiogel yn ddigon pell oddi wrth y plant iau. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn dda. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i'r plant yn yr ardal dan do. Mae'r staff yn gosod yr adnoddau a'r gweithgareddau ar y byrddau ac ar y llawr i'r plant. Maent yn estyn unrhyw beth sydd y tu hwnt i gyrraedd y plant pan fyddant yn gofyn iddynt wneud hynny. Mae gegin ar gael sy'n golygu y gellir paratoi a storio bwyd yn briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da ac sy'n briodol o ran eu hoedran ar gael i'r plant er mwyn ysgogi eu diddordeb a'u dychymyg. Mae amrywiaeth ddigonol o adnoddau ar gael i roi dewis i'r plant. Er enghraifft, ceir adnoddau chwarae byd bach, gweithgareddau celf a chrefft, adnoddau chwarae rôl a phosau. Mae'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Ar y cyfan, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cofrestrau yn cael eu cwblhau, gan nodi amser cyrraedd a gadael y plant. Mae'r staff hefyd yn llofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael. Mae contractau wedi'u cwblhau ar gyfer y plant, ond nid oedd cydsyniad ar gyfer triniaeth feddygol frys i'w weld yn ystod yr ymweliad. Cymerwyd camau i unioni hyn yn syth yn dilyn yr ymweliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau ar waith ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ac nid yw llawer ohonynt yn adlewyrchu'r derminoleg gyfredol yn gywir. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, cyflwynwyd datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gan y lleoliad dystysgrifau cyfredol megis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel, sy'n sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Yn ystod yr ymweliad arolygu, nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys disgrifiadau swydd. Cymerwyd camau i unioni hyn yn dilyn yr ymweliad. Mae camau wedi'u cymryd i drefnu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i bob arweinydd yn dilyn yr ymweliad arolygu. Nodwyd hyn fel maes i'w wella; fodd bynnag, mae'r arweinwyr wedi gweithredu, ac wedi gwneud cais am wiriadau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm i gefnogi ei gilydd, gyda chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd, a sesiynau dadfriffio ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad unrhyw bryd, gan fod polisi drws agored ar waith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio anffurfiol ynghyd ag arfarniadau ffurfiol blynyddol a gaiff eu cofnodi.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau da â'r ysgol. Cadarnhawyd bod partneriaethau cadarnhaol wedi'u meithrin â'r rhieni. Caiff sgyrsiau llafar eu cynnal ac mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio negeseuon testun i gyfathrebu. Fel rhan o'r broses arolygu, gwnaethom ofyn am safbwyntiau'r rhieni a'r plant. Dywedwyd wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan iddo fethu â sicrhau bod tystysgrifau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y bobl sy'n rhedeg y lleoliad. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfle i gael sesiynau goruchwylio un i un ac y caiff y sesiynau hyn eu cofnodi. |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau y caiff y polisi amddiffyn plant ei ddiweddaru i adlewyrchu'r derminoleg gyfredol a bod y staff yn glir ynglŷn â'r broses i'w dilyn os bydd pryderon neu honiad yn erbyn aelod o staff neu'r arweinwyr. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu datblygu ymhellach ar gyfer pob maes a gweithgaredd. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau y caiff cofnodion o ymarferion tân eu datblygu i gynnwys amseroedd, nifer y staff a’r plant a oedd yn bresennol, a pha allanfa dân a ddefnyddiwyd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/10/2023